



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Proses ymchwilio – crynodeb i unigolion sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Proses ymchwilio – crynodeb i unigolion sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn dod â datblygu'r gweithle, rheoleiddio'r gweithle, gwella gwasanaethau a gwaith ymchwil ynghyd mewn un sefydliad.

Ein cylch gwaith yw hyrwyddo a chynnal y canlynol:

- safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol
- safonau uchel wrth hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol
- hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ymchwilio i unrhyw atgyfeiriad, honiad neu gŵyn y byddwn yn eu derbyn am unigolyn ar ein Cofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol.

Mae'r arweiniad hwn yn darparu crynodeb o'n proses ymchwilio.

Os ydych yn rhan o ymchwiliad, bydd cyfeirio at y dogfennau hyn yn bwysig, gan y byddant yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i chi o'r broses.

- Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016 (Rheoliadau'r Gofrestr)
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016 (Rheoliadau'r Rhestr)
- Gofal Cymdeithasol Cymru-Rheolau Ymchwilio 2017
- Gofal Cymdeithasol Cymru-Rheolau Ymchwilio 2018
- Gofal Cymdeithasol Cymru-Rheolau Ymchwilio 2020



Addasrwydd i ymarfer – beth mae'n ei olygu?

Os byddwn yn derbyn atgyfeiriad, honiad neu gŵyn amdanoch, byddwn yn ystyried a oes amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer neu a allai fod.

Efallai bydd amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer ar sail un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

- (a) ymarfer gwael (y cyfeirir ato yn y Ddeddf fel 'perfformiad diffygiol'). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, achos o esgeulustod
- (b) camymddwyn difrifol (p'un a yw hynny fel unigolyn cofrestredig neu fel arall)
- (c) wedi'ch cynnwys ar restr wahardd (ym meddiant y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- (ch) penderfyniad gan gorff arall, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, bod amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer
- (d) iechyd corfforol neu feddyliol wael
- (dd) euogfarn neu rybuddiad troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu euogfarn yn rhywle arall y byddai'n cael ei gyfrif fel trosedd petai wedi cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

Bydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw safon yn *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn cael ei ystyried wrth benderfynu p'un a yw eich addasrwydd i ymarfer wedi cael ei amharu mewn perthynas ag o leiaf un o'r rhesymau a amlinellir uchod.

Gellir ystyried bod amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer p'un a ddigwyddodd y mater pan roeddech ar y Gofrestr ai peidio, a ph'un a ddigwyddodd y mater yng Nghymru neu y tu allan i Gymru.

Ystyriaeth gychwynnol ynghylch atgyfeiriad neu gŵyn

Pan fyddwn yn derbyn atgyfeiriad neu gŵyn bod neu y gallai fod amhariad i'ch addasrwydd i ymarfer, bydd un o'n swyddogion addasrwydd i ymarfer yn cynnal asesiad er mwyn penderfynu a yw'r wybodaeth yn briodol ar gyfer ymchwilio iddo.

Byddwn yn gwneud ymholiadau cychwynnol ac yn rhoi cyfle i chi ymateb. Hefyd, byddwn yn cysylltu â'r person a wnaeth yr atgyfeiriad neu gŵyn.

Mae pob atgyfeiriad rydym yn ymchwilio iddo yn cael ei gyflwyno mewn cynhadledd achos fewnol o fewn 14 diwrnod ar ôl ei dderbyn er mwyn asesu'r wybodaeth sydd





gennym ac ystyried lefel y risg. Hefyd, byddwn yn penderfynu a oes posibilrwydd gwirioneddol o ddod o hyd i amhariad i'r addaswydd i ymarfer.

Yna, byddwn yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- cau'r achos
- mae angen ymchwilio ymhellach
- trosglwyddo'r achos i banel gorchymyn dros dro
- anfon yr achos yn uniongyrchol at banel addaswydd i ymarfer.

Esbonio'r penderfyniadau

Cau achosion

Dyma rai enghreifftiau o achosion y gellir eu cau ar y cam hwn:

- digwyddodd y mater mwy na phum mlynedd yn ôl, ac eithrio'r canlynol:
 - mae'r mater yn berthnasol i euogfarn am drosedd a arweiniodd, neu a allai arwain, at ddedfryd o garchar
 - rydych wedi cael eich gosod ar restr wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
 - mae rheoleiddiwr arall wedi datgan bod amhariad ar eich addaswydd i ymarfer, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - mae ein swyddogion o'r farn y dylid ymchwilio i'r mater ymhellach er budd y cyhoedd
- rydym yn ystyried bod y gŵyn yn un flinderus
- roedd y gŵyn yn ddiennw, ac ni allwn ei ddilysu
- nid yw'r person a gyflwynodd y gŵyn yn cydweithredu â'n swyddogion, felly ni allwn ei ddilysu
- nid oes digon o dystiolaeth i barhau â'r mater, ac ni allwn gael rhagor o wybodaeth
- mae'r mater yn ymwneud â rhyw fath o rybuddiad neu fân euogfarn droseddol, fel trosedd yrru nad yw'n ymwneud ag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, ac rydym yn ystyried nad yw'r amgylchiadau sy'n arwain at y rhybuddiad neu'r euogfarn yn arwain at amharu ar eich addaswydd i ymarfer
- rydym yn teimlo bod y cyflogwr wedi delio â'r mater yn ddigonol, er enghraifft gosod mesurau ar gyfer hyfforddiant penodol, mentora neu oruchwyliaeth ychwanegol.



Ymchwilio ymhellach

Efallai bydd angen i ni ymchwilio i'r mater ymhellach os nad ydym yn teimlo bod digon o wybodaeth/tystiolaeth i'n galluogi i benderfynu sut i barhau â'r achos.

Cyfeirio at banel gorchymyn dros dro

Efallai byddwn yn atgyfeirio'r mater at banel gorchymyn dros dro er mwyn ystyried p'un a fyddwn yn:

- eich gwahardd o'r gofrestr (a rhag ymarfer) am gyfnod penodol tra cynhelir ymholiadau cychwynnol (a elwir yn 'orchymyn gwahardd dros dro')
- gosod amodau dros dro ar eich cofrestriad (a'ch ymarfer) tra cynhelir ymholiadau cychwynnol (a elwir yn 'orchymyn cofrestriad amodol dros dro').

Atgyfeirio'n uniongyrchol at banel addasrwydd i ymarfer

Bydd achos yn cael ei atgyfeirio'n uniongyrchol at banel addasrwydd i ymarfer yn yr achosion canlynol:

- rydych wedi derbyn rhybuddiad neu wedi eich cael yn euog o drosedd gan lys yn y DU neu yn rhywle arall a osododd, neu a allai fod wedi gosod, dedfryd o garchar
- gellir defnyddio canfyddiadau ffeithiol corff rheoliadol (fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel tystiolaeth y canfuwyd y ffeithiau yn eich achos chi.

Ymchwilio ymhellach ar ôl cynhadledd achos gychwynnol

Os bydd achos wedi cael ei atgyfeirio i ymchwilio ymhellach iddo, gall swyddogion wneud ymholiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn pennu a oes amhariad, neu a all fod amhariad, i'ch addasrwydd i ymarfer.

Gall hyn gynnwys cael gwybodaeth/tystiolaeth gan, er enghraifft, lygad-dystion, eich cyflogwr, yr heddlu, neu gorff rheoliadol arall yr ydych wedi cofrestru ag ef, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Hefyd, efallai bydd angen gwybodaeth neu ddogfennau gan unrhyw unigolyn er mwyn helpu â'n hymchwiliad. Os na fydd y wybodaeth na'r dogfennau'n cael eu darparu o fewn amser penodedig, efallai bydd modd i ni wneud cais am orchymyn llys ar gyfer darparu'r wybodaeth.





Byddwn yn trafod eich achos mewn cynhadledd achos fewnol arall os derbyniwn wybodaeth newydd sy'n newid lefel y risg, neu os bydd digon o wybodaeth ar gael er mwyn gwneud penderfyniad am eich achos. Byddwn yn gwerthuso unrhyw wybodaeth a enillwyd a phenderfynu a oes posibilrwydd gwirioneddol o ganfod amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer.

Yna, byddwn yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- peidio â gweithredu ymhellach
- darparu cyngor
- rhoi rhybudd
- gosod ymgymeriad (gyda'ch cydsyniad chi)
- eich tynnu o'r Gofrestr trwy'r weithdrefn dileu o'r gofrestr trwy gytundeb (gyda'ch cydsyniad chi)
- atgyfeirio'r mater at banel gorchymyn dros dro
- atgyfeirio'r mater at banel addasrwydd i ymarfer.

Esbonio ein penderfyniadau

Dim gweithredu pellach

Gellir cau achos heb weithredu yn eich erbyn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys lle gwnaed cwyn flinderus, neu os bydd y cyflogwr wedi mynd i'r afael â'r mater yn ddigonol.

Darparu cyngor

Gallwn ddarparu cyngor i chi neu unrhyw un arall sydd ynghlwm â'r ymchwiliad pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i ben.

Rhoi rhybudd

Os byddwn yn penderfynu rhoi rhybudd i chi, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am hyn, a'ch hawl i ymateb, naill ai yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb o flaen panel addasrwydd i ymarfer. Os byddwch yn derbyn y rhybudd, neu os na fyddwn yn derbyn ymateb, byddwn yn rhoi'r rhybudd.

Os byddwch yn cadarnhau eich bod eisiau gwrandawriad ar lafar o flaen panel addasrwydd i ymarfer, bydd ein tîm gwrandawriadau yn ysgrifennu atoch er mwyn gwneud trefniadau.





Byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad i roi rhybudd i chi ar ein gwefan a byddwn yn diweddarau'r Gofrestr er mwyn dangos ein bod wedi cael rhybudd (ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am eich iechyd corfforol neu feddyliol). Byddwn yn dileu'r rhybudd o'r Gofrestr pan fydd yn dod i ben.

Gosod ymgymeriad

Mae ymgymeriad yn gytundeb rhyngoch chi a Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â'ch arferion gwaith. Mae'n eich galluogi i barhau i weithio, ac mae'n cael ei osod gan ein swyddogion heb eich cyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer. Enghraifft o ymgymeriad yw efallai y bydd angen i chi gwblhau sesiynau hyfforddiant penodol o fewn amser penodedig.

Os nad ydych yn cytuno â'r ymgymeriad hwn, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer.

Tra bod yr ymgymeriad mewn grym, bydd angen i chi gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig berthnasol o'ch cydymffurfriad. Bydd angen i chi ddangos hyn i ni trwy gydol y cyfnod y mae'r ymgymeriad mewn grym.

Os byddwch yn gwneud un o'r canlynol:

- torri rheolau'r ymgymeriad
- peidio â bodloni'r ymgymeriad
- peidio â darparu tystiolaeth ysgrifenedig o'ch cydymffurfriad

bydd y mater yn cael ei atgyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer.

Os ydych wedi bodloni'r ymgymeriad o fewn yr amser gofynnol, bydd y gosb yn dod i ben.

Gallwn ddefnyddio disgrisiwn wrth ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio ac, os bydd yn rhesymol, gallwn addasu'r ymgymeriad er mwyn galluogi cydymffurfriad. Er enghraifft, os bydd y methiant o ganlyniad i salwch, gallwn ymestyn y cyfnod cydymffurfio.

Byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad i roi ymgymeriad ar ein gwefan, a byddwn yn diweddarau'r Gofrestr er mwyn dangos bod ymgymeriad mewn grym (ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am eich iechyd corfforol neu feddyliol). Byddwn yn dileu'r wybodaeth ynghylch yr ymgymeriad(au) o'r Gofrestr pan fydd y cyfnod wedi dod i ben.





Eich tynnu o'r Gofrestr trwy weithdrefn dileu trwy gytundeb

Os gwneir honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn eich erbyn, gallwch wneud cais i gael eich dileu o'r Gofrestr. Gallwch wneud cais i gael eich dileu os nad ydych wedi cael eich atgyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer.

Byddwn yn cyhoeddi canlyniad y dileu dan y broses hon ar ein gwefan, a bydd eich enw'n ymddangos ar restr o bobl a ddilëwyd o'r Gofrestr, sydd hefyd ar gael ar ein gwefan (ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am eich iechyd corfforol neu feddyliol).

Ni fydd cael eich tynnu o'r Gofrestr trwy'r broses hon yn golygu y gallwch osgoi unrhyw gamau pellach gan gyrrff eraill, fel corff rheoleiddio arall yr ydych yn gofrestredig â nhw. Y rheswm am hyn yw bod gan bob corff ei weithdrefnau ar wahân ei hun i'w dilyn.

Atgyfeiriad i banel gorchymyn dros dro

Efallai byddwn yn cyfeirio mater at banel gorchymyn dros dro er mwyn ystyried p'un a fyddwn yn:

- eich gwahardd o'r Gofrestr (ac ymarfer) am gyfnod penodedig tra bod yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen (a elwir yn 'orchymyn gwahardd dros dro')
- gosod amodau dros dro ar eich cofrestriad (ac ymarfer) tra bod yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen (a elwir yn 'orchymyn cofrestriad amodol dros dro').

Atgyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer

Os bydd y swyddogion yn fodlon ynghylch y canlynol:

- mae posibilrwydd realistig y bydd panel yn penderfynu bod amhariad ar eich addasrwydd i ymarfer
- mae'r mater er budd y cyhoedd

byddwn yn trosglwyddo'r mater at banel addasrwydd i ymarfer.

Adolygiad o benderfyniadau gan Ofal Cymdeithasol Cymru

Gallwn adolygu penderfyniadau penodol yn yr achosion canlynol:

- rydym yn credu efallai bod y penderfyniad yn ddiffygiol yn ei hanfod
- rydym o'r farn y byddai penderfyniad gwahanol wedi cael ei wneud petai gwybodaeth benodol ar gael pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol.





Gallwn adolygu penderfyniad:

- i beidio ag atgyfeirio mater yn uniongyrchol at banel addasrwydd i ymarfer yn dilyn ymholiadau cychwynnol neu ar ôl ymchwiliad
- i beidio ag atgyfeirio mater i gael ei ymchwilio ar ôl gwneud ymholiadau dechreuol
- i beidio â gweithredu ymhellach
- i ddarparu cyngor
- i roi rhybudd
- i osod ymgymeriad(au)
- i'ch tynnu o'r Gofrestr trwy'r weithdrefn dileu trwy gytundeb.

Yr unig adeg y gallwn adolygu penderfyniad perthnasol yw os gwneir y cais am adolygiad o fewn **dwy flynedd** ar ôl gwneud y penderfyniad, ac eithrio os ydym o'r farn y byddai ei adolygu ar ôl y cyfnod o ddwy flynedd er budd y cyhoedd.

Os byddwn yn penderfynu cynnal adolygiad, byddwn yn rhoi gwybod i chi, yr unigolyn a gyflwynodd y gŵyn/atgyfeiriad ac unrhyw berson arall rydym yn credu sydd â diddordeb yn y penderfyniad.

Ar ôl yr adolygiad, gallwn:

- atgyfeirio'r mater at banel addasrwydd i ymarfer
- atgyfeirio'r mater i'w ymchwilio
- peidio â gweithredu ymhellach
- darparu cyngor
- rhoi rhybudd
- gorfodi ymgymeriad(au)
- eich tynnu o'r Gofrestr trwy'r weithdrefn dileu trwy gytundeb
- cadw'r penderfyniad gwreiddiol.

Byddwn yn cyhoeddi unrhyw benderfyniadau i roi rhybudd, gorfodi ymgymeriad neu ddileu trwy gytundeb (ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am eich iechyd corfforol na meddyliol).





Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch sut rydym yn parhau â'r achos yn eich erbyn yn rheolaidd yn ystod y broses. Gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg i ofyn am ddiweddariad.

Cael cyngor a chynrychiolaeth broffesiynol neu gyfreithiol

Os byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn atgyfeiriad, cwyn neu honiad amdanoch, efallai byddwch yn dymuno chwilio am gyngor a chynrychiolaeth broffesiynol neu gyfreithiol cyn ymateb i'r wybodaeth hon. Gallwch wneud hyn trwy gysylltu â:

- eich undeb llafur, fel Unison, GMB, Unite, TUC, PCS
- cymdeithas broffesiynol, fel Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)
- cyfreithiwr
- bargyfreithiwr trwy'r uned Bar Pro Bono a all ddarparu cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol i gofrestryddion nad ydynt yn gallu fforddio talu am gyngor neu gynrychiolaeth, a lle nad oes cyllid cyhoeddus ar gael. Cysylltwch â: 020 7092 3960, enquiries@barprobono.org.uk neu www.barprobono.org.uk
- Cyngor ar Bopeth.

Cysylltwch â ni

Tîm addasrwydd i ymarfer

Am wybodaeth am ymchwilio i achos, cysylltwch â:

Y tîm addasrwydd i ymarfer: 029 2078 0545 neu aiy@gofalcymdeithasol.cymru

Y tîm gwrandawiadau

Am wybodaeth am y broses wrandawiadau, cysylltwch â:

Y tîm gwrandawiadau: 029 2078 0505 neu gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru

Cyfeiriad: Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru